# Adran Gofal Cymdeithasol a Thai

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

# Cost Ychwanegol mewn perthynas â Lleoliad Cartref Gofal

## Ffeithlen 26

**(Tachwedd 2025)**

---

Y peth cyntaf i'w ddweud yw bod codi tâl ariannol yn gymhleth ac felly os oes unrhyw ymholiadau gennych, mae croeso i chi siarad â'r aelod o staff gwaith cymdeithasol sy'n delio â chi, neu ein Tîm Asesu Ariannol, neu'r Tîm Broceriaeth, y mae ei fanylion cyswllt ar waelod y ffeithlen hon.

Dim ond os ydych chi neu anwylyd yn ystyried mynd i gartref gofal preifat y mae angen i chi ddarllen y ffeithlen hon, h.y. cartref gofal nad yw'n eiddo i'r cyngor, ac mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn contractio ar gyfer y lleoliad hwnnw.

Os ydych yn mynd i gartref gofal am lai nag 8 wythnos (e.e. seibiant, gofal tymor byr neu ofal amgen) dim ond un lleoliad cartref gofal addas sydd ar gael mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ei gynnig i chi.

Fodd bynnag, os ydych wedi cael eich asesu fel rhywun sydd angen lleoliad cartref gofal ac ar yr adeg derbyn fod disgwyl i'r arhosiad bara mwy nag 8 wythnos (h.y. lleoliad dros dro neu barhaol) yna bydd y canlynol yn berthnasol.[1]

## Yr hyn y mae'n rhaid i ni ei wneud

Os yw asesiad gan yr awdurdod lleol yn pennu bod angen lleoliad cartref gofal arnoch chi neu un o'ch anwyliaid, mae dyletswydd ar yr awdurdod i wneud y canlynol:

- Cynnig dewis o ddau leoliad gofal cartref addas, sydd ar gael i ddiwallu'r anghenion a aseswyd;
- Trefnu i chi fynd i'r cartref gofal o'ch dewis, hyd yn oed os nad yw hwnnw'n un o'r ddau leoliad cartref gofal addas a nodwyd gan yr awdurdod lleol, ar yr amod bod y cartref gofal yn gallu diwallu eich anghenion a'i fod yn fodlon ymrwymo i gontract gyda'r awdurdod lleol. Sylwch y bydd cost ychwanegol yn ddyledus gan drydydd parti os nad yw'r cartref gofal a ddewisir gennych yn un o'r cartrefi a nodwyd gan yr awdurdod lleol. Gall y Gost Ychwanegol fod yn ddyledus gennych os ydych yn ymrwymo i Gytundeb Taliad Gohiriedig[2], ond yn yr achos cyntaf bydd angen i drydydd parti gytuno i ariannu'r Gost Ychwanegol tan y gellir cwblhau Cytundeb Taliad Gohiriedig.

---

[1] Nid yw hyn yn berthnasol i unigolion y mae eu lleoliad cartref gofal yn cael ei ariannu o dan Adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983

[2] Dim ond os oes cytundeb taliadau gohiriedig ar waith. Cysylltwch â'r Tîm Asesu Ariannol i gael rhagor o wybodaeth am daliadau gohiriedig.

Os nad ydych yn berchen ar eiddo, neu os nad ydych am neu yn gallu ymrwymo i gytundeb taliadau gohiriedig (e.e. os nad yw'ch eiddo wedi'i gofrestru gyda'r Gofrestrfa Tir, mae eisoes Tâl Cyfreithiol wedi'i sicrhau yn erbyn yr eiddo, neu mae'r eiddo yn cael ei ddiystyru o'r asesiad ariannol ac ati), neu os nad oes unrhyw un arall sy'n fodlon neu sy'n gallu talu'r gost ychwanegol, gallwch ddal i ddewis trefnu lleoliad cartref gofal eich hun, heb gynnwys yr awdurdod lleol. Fel arall, efallai yr hoffech gymryd **Taliad Uniongyrchol** i gomisiynu eich lleoliad cartref gofal eich hun. Mae hyn yn golygu y gallech dalu'r Gost Ychwanegol eich hun; byddai hyn yn ychwanegol at eich cyfraniad a aseswyd yn ariannol ar gyfer eich lleoliad cartref gofal a fyddai'n ddyledus i'r Awdurdod Lleol.

**Gallwch gael rhagor o wybodaeth am daliadau uniongyrchol ac asesiadau ariannol ar ein gwefan:** www.sirgar.llyw.cymru/materionariannol

## Beth yw'r gyfradd safonol ar gyfer lleoliadau cartref gofal?

Mae'n bwysig bod yn ymwybodol nad yw pob cartref gofal yn codi'r un gyfradd ar gyfer lleoliad cartref gofal. Bob blwyddyn, mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cwrdd â chynrychiolwyr o'r cartrefi gofal yn Sir Gaerfyrddin i gytuno ar gyfradd safonol ar gyfer lleoliadau cartref gofal a drefnir gan yr awdurdod lleol.

Ceir pedair cyfradd safonol gan ddibynnu ar y math o ofal sydd ei angen ar y person. Bydd nifer o gartrefi gofal yn derbyn cyfradd contract safonol y cyngor, ond bydd eraill am godi mwy. Os nad yw'r cartref gofal yn Sir Gaerfyrddin, bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn talu ei gyfradd contract safonol i'r cartref gofal a'r gwahaniaeth mewn cost, os yw'n ddrytach, fydd y Gost Ychwanegol.

## Faint fydd yn rhaid i mi ei dalu os byddaf yn mynd i un o'r ddau leoliad cartref gofal a gynigir gan Gyngor Sir Caerfyrddin?

Os na all Cyngor Sir Caerfyrddin gynnig lleoliad i chi mewn dau gartref gofal ar ei gyfradd safonol, pa bynnag un a ddewisir gennych o'r ddau gartref a gynigir, dim ond y gyfradd safonol berthnasol ar gyfer y math o ofal fydd ei angen arnoch fydd yn cael ei chodi.

Fodd bynnag, bydd yr union swm y byddwch yn ei gyfrannu at gost y cartref gofal yn cael ei bennu gan **asesiad ariannol**. Mae hyn yn golygu na ddylech byth dalu mwy nag y gallwch ei fforddio, felly nid oes rhaid i bawb dalu cost lawn y lleoliad cartref gofal ond o leiaf bydd pawb yn gwneud cyfraniad o'u hincwm tuag at leoliad cartref gofal (ac eithrio mewn rhai amgylchiadau penodol – gweler y ddolen am wybodaeth am Asesiadau Ariannol ar ddiwedd y Daflen Ffeithiau hon). I sicrhau nad ydych yn talu mwy nag y gallwch ei fforddio, byddwn yn cynnal asesiad ariannol o'ch amgylchiadau.

## Beth os wyf am fynd i gartref gofal sy'n ddrutach na'r ddau a gynigir i mi gan Gyngor Sir Caerfyrddin?

Os ydych chi eisiau mynd i gartref gofal gwahanol i'r ddau rydyn ni wedi'i gynnig i chi, yna gallwch fynd i unrhyw le yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon, neu'r Alban. Fodd bynnag, os yw'r cartref gofal rydych chi'n ei ddewis, boed yn Sir Gaerfyrddin ai peidio, yn codi mwy na chyfradd safonol Sir Gaerfyrddin/na'r ddau gartref gofal a gynigir i chi, yna mae cost ychwanegol yn berthnasol.

Mae'n bwysig nodi, os oes cost ychwanegol, yna oni bai eich bod yn gallu ymrwymo i **Gytundeb Talu Gohiriedig** fel arfer bydd yn rhaid i rywun heblaw eich hun dalu hyn o'u cronfeydd eu hunain ac mewn pob achos, bydd angen i rywun arall gytuno talu'r Gost Ychwanegol tan y gellir cwblhau Cytundeb Taliad Gohiriedig. Mae'r swm hwn ar ben yr hyn rydych chi'n cael ei asesu'n ariannol i gyfrannu tuag at gost eich lleoliad cartref gofal.

Os na allwch dalu'r Gost Ychwanegol eich hun drwy Gytundeb Taliad Gohiriedig ac nad oes gennych drydydd parti sy'n fodlon ac yn gallu talu'r Gost Ychwanegol, yna mae'n rhaid i chi ddewis un o'r ddau gartref gofal a gynigir i chi gan y cyngor (neu gartref gofal o gost gyfatebol), neu gymryd **Taliad Uniongyrchol** i dalu am eich lleoliad mewn cartref gofal, neu gwneud eich trefniadau eich hun ar gyfer lleoliad y cartref gofal heb gyfranogiad gan y cyngor.

**Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y Cynllun Taliadau wedi'u Gohirio a Chostau Ychwanegol ar ein gwefan:** www.sirgar.llyw.cymru/materionariannol

## Sut y mae hyn yn gweithio'n ymarferol?

Os yw Cyngor Sir Caerfyrddin yn contractio ar gyfer eich lleoliad cartref gofal a'i fod yn ddrutach na'r ddau a gynigir ac yn ddrutach na'r gyfradd safonol, bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn contractio gyda'r cartref gofal ar gyfer cost lawn y lleoliad, gan gynnwys swm y Gost Ychwanegol.

Os ydych chi'n berchen ar eich hen brif breswylfa, yna cyn belled â'ch bod yn bodloni gofynion penodol byddwch yn gallu ymrwymo i **Gynllun Taliadau Gohiriedig** ac ariannu'r Gost Ychwanegol eich hun o dan y trefniant hwn, ond dim ond ar ôl i'r Cytundeb Taliad Gohiriedig fod yn ei le. Hyd nes hynny, mae'n rhaid i drydydd parti gytuno i dalu am a chynnal y Gost Ychwanegol.

Fodd bynnag, os nad ydych yn berchen ar eiddo neu os na allwch ymrwymo i Gytundeb Talu Gohiriedig, **bydd angen i chi nodi rhywun sy'n fodlon ac yn gallu talu'r gost ychwanegol y cyfeirir ato uchod.** Mae angen i'r person hwnnw ddeall y bydd yn rhaid iddynt dalu'r gost ychwanegol honno cyhyd ag y byddwch yn y cartref gofal (gweler y darlun o'r atebolrwydd posibl, trosodd). O ganlyniad, bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn cynnal asesiad ariannol ar y drydydd parti cyn trefnu'r lleoliad a bydd angen gweld tystiolaeth y gall y trydydd parti fforddio talu'r gost ychwanegol. Bydd yn ofynnol iddynt hefyd lofnodi contract cyfreithiol rhwymol gyda'r cyngor yn cadarnhau y byddant yn talu'r swm hwn ac efallai y byddant yn destun camau adfer cyfreithiol os nad ydynt yn talu'r swm hwn. Ni fydd y lleoliad yn mynd ymlaen tan fod y cytundeb a'i harwyddwyd a thystiolaeth o allu fforddio'r Gost Ychwanegol yn cael eu derbyn.

Os, ar ôl yr asesiad ariannol, ystyrir na all y trydydd parti fforddio'r Gost Ychwanegol yn y lleoliad a ddewiswyd am gyfnod disgwyliedig y lleoliad, ni fydd yr awdurdod lleol mewn sefyllfa i drefnu'r lleoliad hwnnw. Os nad ydych yn derbyn naill ai o'r cartrefi gofal a gynigiwyd gan yr Awdurdod Lleol, yna gallwch naill ai gymryd Taliad Uniongyrchol neu drefnu eich lleoliad eich hun heb gymorth yr Awdurdod Lleol gan y bydd wedi cyflawni ei ddyletswydd trwy gynnig dau leoliad addas i ateb eich anghenion.

**Os yw trydydd parti yn atebol i dalu'r Gost Ychwanegol (h.y. ni allwch ei thalu gan nad ydych yn berchen ar eiddo/ni allwch ymuno â'r Cynllun Taliad Gohiriedig) yna rhaid i'r trydydd parti dalu hyn o'u cronfeydd eu hunain, nid o'ch cronfeydd chi. Mae'r swm hwn**

**yn ychwanegol i'r swm rydych chi'n cael ei asesu'n ariannol i gyfrannu tuag at gost eich lleoliad cartref gofal.**

Gweler isod ddarlun o'r swm y gallai'r trydydd parti fod yn ymrwymo i'w dalu dros gyfnod cyfartalog lleoliad cartref gofal 'parhaol'.

**Darlun – Symiau Costau Ychwanegol**

| Swm Cost Ychwanegol Wythnosol (CY) | Atebolrwydd CY – Blwyddyn 1 | Atebolrwydd CY – Blwyddyn 2 | Cyfanswm Atebolrwydd CY (dros 2 flynedd, bydd yn cynyddu os yw'r lleoliad yn para'n hirach) |
|---|---|---|---|
| £25.00 | £25.00 x 52 wythnos = £1,300.00 | £25.00 x 52 wythnos = £1,300.00 | £2,600.00 |
| £50.00 | £50.00 x 52 wythnos = £2,600.00 | £50.00 x 52 wythnos = £2,600.00 | £5,200.00 |
| £100.00 | £100.00 x 52 wythnos = £5,200.00 | £100.00 x 52 wythnos = £5,200.00 | £10,400.00 |
| £150.00 | £150.00 x 52 wythnos = £7,800.00 | £150.00 x 52 wythnos = £7,800.00 | £15,600.00 |
| £200.00 | £200.00 x 52 wythnos = £10,400.00 | £200.00 x 52 wythnos = £10,400.00 | £20,800.00 |

**Ni ddylai'r cartref gofal byth ofyn i'r person yr ydych yn ei nodi neu unrhyw un o'ch teulu dalu'r gost ychwanegol yn uniongyrchol iddynt.**

**Mae hefyd yn bwysig nodi bod cartrefi gofal yn newid eu ffioedd cartref gofal yn rheolaidd ac felly gall cyfradd safonol y cyngor newid. Os bydd y gyfradd hon yn newid, mae'n gallu golygu bod y gost ychwanegol yn cynyddu ac felly mae angen i'r person sy'n talu'r swm hwn fod yn ymwybodol o hyn.**

## Beth sy'n digwydd os na fydd y person sy'n talu'r gost ychwanegol yn gallu ei thalu mwyach?

I ddechrau, byddwn yn ceisio adennill y ddyled gan y person drwy ein proses rheoli dyledion, a allai arwain at achos llys yn y pen draw. Yn ogystal, os nad yw'r gost ychwanegol yn cael ei thalu, bydd y cyngor yn ystyried gwneud trefniadau rhatach eraill, a allai gynnwys eich bod yn gorfod symud i gartref gofal rhatach.

**Gallwch gael rhagor o wybodaeth am gostau ychwanegol ar ein gwefan:**

www.sirgar.llyw.cymru/materionariannol

## Gwybodaeth Ddefnyddiol Eraill

Efallai y byddwch hefyd yn gweld y taflenni gwybodaeth canlynol yn ddefnyddiol:

- Taflen Wybodaeth 2 – Symud i Gartref Gofal
- Taflen Wybodaeth 5 – Gwybodaeth am Daliadau Uniongyrchol
- Taflen Wybodaeth 6 – Cynllun Taliadau wedi'u Gohirio
- Taflen Wybodaeth 27 – Trefniadau Gofal Preifat

## Angen Mwy o Gymorth?

Os hoffech siarad â rhywun am eich asesiad ariannol, cysylltwch â'n Tîm Asesu Ariannol:
**01267 228997 / 01267 228861**
GCTasesiadauariannol@sirgar.gov.uk

Am gwestiynau ynghylch costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â lleoliadau mewn cartrefi gofal, cysylltwch â'r Tîm Brocera Llety Preswyl:
**01267 228751**
COMBrokerageAccommodation@carmarthenshire.gov.uk

Mae pob taflen wybodaeth am ofal cymdeithasol ar gael yma:
www.sirgar.llyw.cymru/taflennigwybodaeth

**Mae'r ffeithlen hon hefyd ar gael yn Saesneg.**
**Os hoffech chi gael y ffeithlen hon mewn unrhyw fformat arall ffoniwch 01267 228703 neu**
**e-bostiwch: gofalcymdeithasol@sirgar.gov.uk**